Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gellifor**
**Gellifor**
**Rhuthun**
**LL15 1SG**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 05/05/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gellifor wedi ei lleoli ym mhentref gwledig bach Gellifor, yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng 4 ac 11 oed. Ar hyn o bryd, mae 69 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae pedwar dosbarth, y mae tri ohonynt yn ddosbarthiadau oed cymysg.

Mae'r ysgol yn nodi mai ychydig iawn o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes unrhyw un o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf nac yn cael cymorth mewn Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae tua 2% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru-gyfan.

Bu'r pennaeth yn y swydd er Mawrth 2015 ac mae'n rhannu ei amser rhwng Ysgol Gellifor ac Ysgol Bryn Clwyd fel rhan o ffederasiwn ffurfiol. Roedd arolygiad diwethaf yr ysgol yn Ebrill 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gellifor yn 2016-2017 yw £4,289. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych yw £8,267 a'r lleiafswm yw £3,066. Mae Ysgol Gellifor yn y 23ain safle o'r 46 ysgol gynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llefaredd sydd wedi eu datblygu'n dda, ac maent yn eu defnyddio'n hyderus mewn ystod o sefyllfaoedd
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n greadigol ac yn gywir ar draws ystod eang o genres ac yn llunio darnau estynedig o ysgrifennu o ansawdd da
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm
- Mae gan bron pob un o'r disgyblion fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da
- mae pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed yn yr ysgol
- mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys sydd â phwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion
- mae athrawon yn darparu gweithgareddau diddorol a difyr sy'n tanio brwdfrydedd disgyblion yn llwyddiannus
- mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar a chynorthwyol i'w disgyblion
- mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion yn llwyddiannus i fagu hyder, gwytnwch a pharodrwydd i dderbyn heriau newydd

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae arweinwyr ysgol yn cydweithio'n effeithiol â disgyblion a staff i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer gwelliant parhaus
- mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol bwyllog ac ystyriol i'r ysgolion yn y ffederasiwn
- mae arweinwyr yn nodi ac yn gweithredu strategaethau yn llwyddiannus i wella arweinyddiaeth, darpariaeth a deilliannau i ddisgyblion
- mae penaethiaid cynorthwyol yn cyfrannu'n bwrpasol at dasgau arweinyddiaeth fel dadansoddi data a phennu blaenoriaethau strategol
- mae arweinwyr ysgol yn arfarnu ansawdd gwaith yr ysgol yn systematig trwy gylch o weithgareddau monitro sydd wedi eu cynllunio'n dda
- at ei gilydd, mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi dealltwriaeth gywir i arweinwyr o'i phrif gryfderau a'r meysydd i'w gwella; maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i sicrhau gwelliant
- mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau yn y ddwy ysgol yn y ffederasiwn a'u blaenoriaethau ar gyfer gwella

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i bob un o'r disgyblion ddylanwadu ar faterion sy'n effeithio arnynt yn yr ysgol

A2 Sicrhau bod cynllunio yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion ar draws pob maes dysgu

A3 Datblygu medrau uwch arweinwyr ymhellach i wella addysgu a dysgu

A4 Sicrhau bod gweithgareddau monitro yn arfarnu effaith darpariaeth yr ysgol ar safonau disgyblion a chynnydd yn effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau sydd uwchlaw'r disgwyl ar gyfer disgyblion o oedran tebyg. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, gwna'r rhan fwyaf ohonynt gynnydd da ac maent yn cyflawni ar neu uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n dilyn rhaglenni ymyrraeth yn gwneud cynnydd buddiol mewn cyfnod byr.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau llefaredd sydd wedi eu datblygu'n dda iawn, ac maent yn eu defnyddio'n hyderus mewn ystod o sefyllfaoedd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac oedolion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Tua diwedd y Cyfnod Sylfaenol maent yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir ac yn gwneud ymdrechion credadwy i sillafu geiriau anghyfarwydd. Maent yn llunio ffeiliau ffeithiau diddorol am anifeiliaid Arctig ac yn ysgrifennu dechreuadau diddorol i storïau. Fodd bynnag, mae rhy ychydig o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn rheolaidd oherwydd, ar adegau, cânt eu cyfyngu'n ormodol gan ddefnydd o daflenni gwaith.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ysgrifennu'n ddychmygus ac yn gywir ar draws ystod eang o genres ac yn llunio ysgrifennu estynedig o ansawdd da. Mae llawer ohonynt yn defnyddio geirfa helaeth a chyffelybiaethau yn llwyddiannus i gyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ddisgrifio'r môr. Mae bron pob un o'r disgyblion yn defnyddio atalnodi a pharagraffau'n dda i drefnu eu gwaith, ac mae llawer o ddisgyblion hŷn yn drafftio ac yn mireinio eu hysgrifennu i wella ei ansawdd yn fedrus. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae cyflwyniad eu gwaith a'u medrau llawysgrifen o ansawdd da yn gyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn darllen testunau syml ar lafar yn hyderus ac yn datgodio geiriau anghyfarwydd yn dda. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran, ac â mynegiant da. Maent yn barod i drafod testunau gan eu hoff awduron ac yn dethol gwybodaeth berthnasol yn gyflym wrth ymchwilio fel rhan o'u gwaith pwnc.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ac yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ddatrys problemau sy'n ymwneud ag arian a mesurau. Mae disgyblion hŷn yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio eu medrau trin data yn dda a gallant dynnu gwybodaeth o siartiau cyfrif i lunio graffiau bar yn gywir. Mae gan lawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddealltwriaeth gadarn o werth lle ac maent yn rhoi rhifau degol yn eu trefn yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 6, mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth dda iawn o ffracsiynau a chyfesurynnau. Mae bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu gwybodaeth fathemategol yn annibynnol wrth gyflwyno a dehongli data, er enghraifft wrth gofnodi gwybodaeth o ymchwiliadau gwyddonol ac ymchwil daearyddol.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn defnyddio llechi cyfrifiadurol i ategu eu dysgu'n dda, yn enwedig wrth wneud ffilmiau animeiddiedig byr am ddinosoriaid. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn chwilio am wybodaeth ar-lein yn gymwys. Maent yn llunio cyflwyniadau a thaflenni addysgiadol sy'n gysylltiedig â'u pynciau hanes a daearyddol, ac yn mewnfudo graffigau i ychwanegu diddordeb. Mae defnydd disgyblion hŷn o daenlenni a chronfeydd data yn datblygu'n dda.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig am ddysgu'r Gymraeg. Maent yn deall y Gymraeg sy'n cael ei defnyddio gan staff ac yn ymateb yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio patrymau cyfarwydd i ofyn ac ateb cwestiynau am y tywydd a sut maent yn teimlo. Maent yn darllen yn hyderus â lefelau da o ddealltwriaeth ac ynganu. Mae Cymraeg ysgrifenedig y rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu'n dda, ac maent yn llunio gwaith o ansawdd da, er enghraifft wrth ysgrifennu sgriptiau ar gyfer dramâu.

Mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd diwethaf, ar ddeilliant disgwyliedig 5 mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol, yn dangos tuedd amrywiol o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Ar y deilliant uwch na'r disgwyl, sef deilliant 6, dros yr un cyfnod, mae perfformiad mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol yn rhoi'r ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg, yn gyffredinol.

Yng nghyfnod allweddol 2 dros y pedair blynedd diwethaf, mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r ysgol wedi perfformio yn y 25% uchaf, yn gyffredinol, o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, sef lefel 5, mae perfformiad yn y tri phwnc wedi rhoi'r ysgol yn y 50% uwch, yn gyffredinol.

Mae niferoedd bach yn golygu bod cymariaethau o berfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn erbyn perfformiad disgyblion eraill yn annilys. Nid oes unrhyw duedd wirioneddol dros amser rhwng perfformiad bechgyn a merched.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal da yn yr ysgol, ac yn gwybod â phwy y dylent siarad os ydynt yn poeni. Trwy gyfranogiad gweithredol mewn ystod o weithgareddau corfforol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gwerthfawrogiad a dealltwriaeth dda o bwysigrwydd mabwysiadu ffordd iach o fyw.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl. Maent yn frwdfrydig am ddysgu ac yn gweithio gyda'i gilydd yn hapus. Mae pob un ohonynt yn trin oedolion a'u cyfoedion â pharch ac yn dangos gofal a phryder diffuant.

Mae pob un o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed, ac maent yn dechrau chwarae rôl weithredol mewn penderfyniadau trwy eu gwaith ar y cyngor ysgol a'r eco bwyllgor. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau y mae hyn, ac nid yw'n cynnwys disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd. Mae disgyblion yn

dechrau dylanwadu ar arfer yr ystafell ddosbarth; er enghraifft, maent wedi llunio system goleuadau traffig i annog ymddygiad cadarnhaol. Yn ddiweddar, mae disgyblion hŷn wedi dechrau dewis beth a sut yr hoffent ddysgu yn ystod gwersi addysg gorfforol.

Yn gyffredinol, bu cyfraddau presenoldeb ar neu ychydig islaw'r canolrif yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae hyn o ganlyniad i niferoedd disgyblion sy'n aml yn fach ac yn gyfnewidiol, i raddau helaeth, sy'n ei gwneud yn anodd cymharu ag ysgolion tebyg eraill. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn dechrau gwella'n raddol. Mae'r data diweddaraf yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn brydlon ac yn awyddus i fod yn bresennol yn rheolaidd, gan eu bod yn mwynhau pob agwedd ar fywyd yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu o ansawdd da sy'n cyfoethogi ac yn gwella addysg disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm cytbwys, gan ddefnyddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cenedlaethol i roi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. Mae cyfleoedd niferus i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn mewn gweithgareddau dysgu pwrpasol ar draws y cwricwlwm. Nid yw cynllunio tymor hir, tymor canolig a thymor byr wedi eu cysylltu'n ddigon cydlynus bob tro. O ganlyniad, nid yw cynllunio ar gyfer y cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol disgyblion yn ddigon systematig bob tro. Mae cynllunio i ddatblygu medrau meddwl disgyblion yn effeithiol iawn ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu lefelau uchel o ddatrys problemau a dyfalbarhad.

Mae darpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn y Gymraeg yn dda, ac mae'r holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd gyda disgyblion mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae hyn yn galluogi disgyblion yn y 'Criw Cymraeg' i fod yn gyfrifol am gynorthwyo disgyblion eraill i wella eu Cymraeg. Maent yn trefnu gemau a heriau Cymraeg diddorol yn ystod amser egwyl. Mae cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol a hanes a diwylliant Cymru. Mae disgyblion yn ymweld â thirnodau Cymreig lleol a lleoedd yn y gymuned leol i wella eu profiadau dysgu yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod werthfawr o weithgareddau allgyrsiol, er enghraifft codio cyfrifiadurol, gymnasteg a chlwb pêl-droed. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfoethogi'r ddarpariaeth i ddisgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn gadarnhaol ar draws y cwricwlwm. Mae wedi meithrin cysylltiadau priodol ag ysgolion mewn gwledydd eraill trwy brosiect ffrindiau gohebol. Mae'r eco bwyllgor sefydledig yn gweithio ar faterion fel sbwriel a baw cŵn yn y gymuned yn effeithiol. Mae'r ysgol yn darparu profiadau defnyddiol i ddisgyblion dyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain ac i werthu eu cynnyrch yn yr ysgol. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o ffyrdd o fyw cynaliadwy a bwyta'n iach.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol a difyr sy'n tanio brwdfrydedd disgyblion yn llwyddiannus. Yn gyffredinol, mae gan staff ddisgwyliadau uchel o'r hyn y dylai disgyblion ei gyflawni, mae ganddynt wybodaeth bynciol dda ac maent yn sicrhau bod rhediad da i'r dysgu.

Mae'r holl staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda ac, o ganlyniad, mae gan ddisgyblion gymhelliant da i ddysgu. Mae cynorthwywyr addysgu yn cynorthwyo disgyblion unigol yn effeithiol, er enghraifft trwy arwain grwpiau cyfnerthu i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i'r hyn y gall disgyblion ei wneud eisoes er mwyn sicrhau bod y dysgu'n gweddu'n dda i anghenion unigolion. Fodd bynnag, yn achlysurol iawn, nid yw gweithgareddau'n herio disgyblion mwy abl yn ddigon da.

Gwna athrawon ddefnydd buddiol o holi i ddatblygu medrau meddwl disgyblion. Mae defnyddio heriau dysgu yn annog disgyblion i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ymestyn eu dysgu a mynd i'r afael â phrofiadau dysgu newydd yn hyderus. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ohonynt lefelau uchel o annibyniaeth a gwytnwch. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o ardaloedd awyr agored i ddatblygu medrau rhifedd a datblygiad corfforol disgyblion.

Mae oedolion yn rhoi canmoliaeth lafar ddefnyddiol ac adborth parhaus. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a sut i wella eu gwaith. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ystyried adborth ysgrifenedig ac ymateb iddo yn datblygu'n briodol, ond nid ydynt yn gyson ym mhob dosbarth. Mae defnyddio asesu cyfoedion a hunanasesu yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u cryfderau a meysydd i'w datblygu yn addas.

Gwna athrawon ddefnydd da o wybodaeth asesu i osod targedau ar gyfer gwelliant disgyblion ac i ddatblygu darpariaeth. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu a rhifedd disgyblion wedi gwella'n sylweddol. Ceir olrhain manwl ar lefel ysgol gyfan ac ar lefel disgyblion unigol, ac mae athrawon yn deall anghenion eu disgyblion yn dda.

Mae rhieni'n cael gwybodaeth werthfawr am gynnydd a chyflawniad eu plant trwy gyfarfodydd rheolaidd â rhieni, slipiau cynnydd ac adroddiadau blynyddol llawn gwybodaeth.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol i'w disgyblion. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion moesol a chymdeithasol trwy eu gwaith a'r Gymdeithas Dementia leol. Mae rhaglen o ymweliadau gan swyddog cyswllt yr heddlu yn addysgu disgyblion sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau amser cylch yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion drafod ystod o faterion a phynciau perthnasol.

Mae trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion wneud ymarfer corff trwy wersi addysg gorfodol ac ystod eang o glybiau chwaraeon allgyrsiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion yn dda trwy ymweliadau ag amgueddfeydd, y theatr, cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd a gweithio ag artistiaid o Gymru. Mae gweithredoedd addoli ar y cyd a myfyrio dyddiol yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ystyried materion ysbrydol.

Mae trefniadau i gynorthwyo disgyblion ag anghenion ychwanegol yn effeithiol. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion o ansawdd da ac mae staff yn eu rhannu â'r disgyblion a'u teuluoedd. Mae athrawon yn gosod targedau clir ar gyfer gwella ac yn monitro eu cynnydd yn llwyddiannus. Mae staff yn defnyddio ystod o raglenni cymorth buddiol i sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da ag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol yn ôl y gofyn, fel y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaeth iaith a lleferydd, i ddarparu cymorth ac arweiniad effeithiol i staff, rhieni a disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol fesurau addas i wella presenoldeb disgyblion, fel dyfarnu tystysgrifau presenoldeb llawn. Mae cyfathrebu rheolaidd â rhieni trwy gylchlythyrau yn helpu i bwysleisio pwysigrwydd presenoldeb da yn llwyddiannus.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cynhwysol a chroesawgar i'w disgyblion ac yn trin pob un ohonynt yn gyfartal ac â pharch. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu hyder, gwytnwch a pharodrwydd i dderbyn heriau newydd yn llwyddiannus. Gall disgyblion fanteisio'n gyfartal ar bob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol a'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n cael ei darparu.

Mae safle ac adeiladau'r ysgol yn ddiogel ac yn sicr. Gwna staff ddefnydd effeithiol o'r holl le sydd ar gael i wella dysgu disgyblion. Mae ardaloedd y tu allan yn ddiddorol, wedi eu cynnal a chadw'n dda ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gynorthwyo disgyblion y Cyfnod Sylfaen i ddatblygu eu medrau rhifedd a datblygiad corfforol.

Mae ystod dda o adnoddau ar gael i ategu addysgu a dysgu yn llwyddiannus. Yn benodol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o offer TGCh yn effeithiol i ategu eu dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae arddangosfeydd lliwgar mewn ardaloedd cymunedol, coridorau ac ystafelloedd dosbarth sy'n dathlu gwaith disgyblion yn dda. Ar draws yr ysgol, mae enghreifftiau da o arddangosiadau yn Gymraeg a Saesneg sy'n dathlu treftadaeth Gymreig disgyblion yn llwyddiannus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinwyr yr ysgol wedi cydweithio'n effeithiol â disgyblion a staff i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer gwelliant parhaus. Mae'r weledigaeth hon yn bodloni anghenion pob ysgol yn y ffederasiwn yn dda. Mae'r pennaeth yn rhagweithiol wrth geisio gweithio ar y cyd ag ysgolion lleol eraill i sicrhau gwelliannau, ac mae'n darparu arweinyddiaeth strategol bwyllog ac ystyriol i'r ffederasiwn o ysgolion. Mae arweinwyr yn nodi ac yn gweithredu strategaethau'n llwyddiannus i wella arweinyddiaeth, darpariaeth a deilliannau i ddisgyblion; er enghraifft, mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad staff yn gwella gwaith athrawon unigol yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn rhannu hyn ac agweddau eraill ar arfer orau ar draws y ffederasiwn yn ddigon da. Mae staff yn dechrau cydweithio'n llwyddiannus, er enghraifft i gymedroli safonau gwaith a rhannu cynllunio'r cwricwlwm.

Mae strwythur staffio addas i fodloni anghenion yr ysgolion. Mae trefniadau i ddosbarthu cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn effeithiol, ar y cyfan. Mae penaethiaid cynorthwyol yn cyfrannu'n bwrpasol ar dasgau arweinyddiaeth, fel dadansoddi data a phennu blaenoriaethau strategol. Maent hefyd yn arwain darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cael ei datblygu y mae ei rôl mewn arwain addysgu a dysgu. Mae staff sy'n gyfrifol am fentrau gwella eraill yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n dda, ar y cyfan. Mae hyn yn cynorthwyo'r ysgol i wneud cynnydd da o ran rhoi blaenoriaethau cenedlaethol ar waith, fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a blaenoriaethau gwella'r ddwy ysgol yn y ffederasiwn. Maent yn dwyn yr ysgolion i gyfrif yn briodol am eu perfformiad. Maent yn cyfrannu'n briodol i brosesau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a gwelliant; er enghraifft, mae pwyllgor y cwricwlwm yn cynnal archwiliadau defnyddiol o ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer TGCh. Mae llywodraethwyr yn gwirfoddoli yn yr ysgol i ddarparu cymorth cwricwlwm defnyddiol, er enghraifft i helpu â darllen yn Gymraeg. Maent yn holi arweinwyr ysgol yn briodol ynghylch defnyddio adnoddau, er enghraifft i wella darpariaeth i ddisgyblion mwy abl. Mae llywodraethwyr yn monitro gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cynorthwyo i wella'r ysgol yn briodol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr yr ysgol yn arfarnu ansawdd gwaith yr ysgol yn systematig trwy gylch o weithgareddau monitro sydd wedi eu cynllunio'n dda. Mae'r rhain yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r agweddau ar ei gwaith ac yn dilyn fformat cyson ar draws yr ysgolion yn y ffederasiwn. Mae arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad yn dda. Er enghraifft, mae adolygiadau rheolaidd o berfformiad disgyblion a dadansoddi profion diagnostig yn cynorthwyo arweinwyr i gynllunio darpariaeth i ddisgyblion yn effeithiol. Mae'r pennaeth yn monitro cynllunio athrawon yn ofalus i sicrhau bod darpariaeth dda i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion mewn ffordd systematig. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n briodol i brosesau hunanarfarnu a gosod

blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent yn casglu ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol trwy arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau monitro hyn yn arfarnu'n ddigon da effaith darpariaeth yr ysgol ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni neu'r cynnydd a wnânt. Mae disgyblion yn cyfrannu at weithgarwch hunanarfarnu yn achlysurol; er enghraifft, gwnaethant ofyn am gyfleoedd ychwanegol i ddysgu yn yr awyr agored. Mae arweinwyr wedi ymateb i'r safbwyntiau hyn yn brydlon, er enghraifft trwy ddatblygu darpariaeth effeithiol ar gyfer mathemateg yn yr amgylchedd awyr agored.

At ei gilydd, mae'r broses hunanarfarnu yn darparu dealltwriaeth gywir i athrawon o brif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i sicrhau gwelliant. Mae cynlluniau datblygu yn fanwl ac yn nodi costau, amserlenni a meini prawf llwyddiant addas. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid yn dda i roi'r cynlluniau hyn ar waith yn llwyddiannus, er enghraifft i godi safonau mewn mathemateg ac i wella ansawdd darpariaeth i ddatblygu medrau TGCh disgyblion. Mae trefniadau da i ategu gwella'r ysgol â chyfleoedd perthnasol ar gyfer datblygiad proffesiynol, fel y rhaglen athrawon rhagorol. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd tuag at gyflawni nodau gwelliant yn dda.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i ganfyddiadau adolygiadau allanol. Er enghraifft, mae gwaith buddiol â'r consortiwm rhanbarthol wedi cynorthwyo'r ysgol i ddatblygu gweithgareddau cyson ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod helaeth o bartneriaethau llwyddiannus yn ategu cynnydd a lles disgyblion yn effeithiol. Gwna rhieni ac aelodau'r gymuned gyfraniadau gwerthfawr i waith yr ysgol, er enghraifft trwy godi arian i brynu adnoddau a darparu profiadau dysgu gwerthfawr, fel y clwb eco a'r clwb garddio. Mae cyfathrebu effeithiol rhwng yr ysgolion a rhieni, er enghraifft trwy gylchlythyrau wythnosol. Mae'r rhain yn dathlu cyflawniadau'r ysgol ac yn helpu rhieni i gynorthwyo eu plant yn yr ysgol.

Mae cysylltiadau buddiol â grwpiau cyn-ysgol, sy'n helpu disgyblion i ymgartrefu'n rhwydd yn yr ysgol. Mae trefniadau addas i gynorthwyo trosglwyddo disgyblion i addysg uwchradd. Mae'r rhain yn cynnwys ystod ddefnyddiol o weithgareddau ymsefydlu a rhannu gwybodaeth briodol yn ymwneud â chyrhaeddiad blaenorol disgyblion. Mae prosesau effeithiol â'r clwstwr lleol o ysgolion i gymedroli cywirdeb asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6. Mae cysylltiadau ag ysgolion cynradd lleol yn datblygu'n dda, ac mae gweithgareddau ar y cyd ac arsylwi arfer dda yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

Mae partneriaethau gwerthfawr â'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol yn cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol. Mae cysylltiadau pwrpasol ag ystod dda o sefydliadau yn y gymuned a busnesau lleol. Mae partneriaeth arloesol â hufenfa leol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr i ddisgyblion, sy'n eu galluogi i ddatblygu eu medrau dylunio a chyflwyno. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar gymorth gan rieni a gwirfoddolwyr o'r gymuned i wella eu medrau darllen Cymraeg a'u hyder wrth siarad Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol dîm o athrawon a staff cymorth â chymwysterau addas i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae arweinwyr yn defnyddio staff yn effeithlon ac yn sicrhau y gwnânt ddefnydd da o arbenigedd staff. Mae'r holl athrawon yn cael amser digonol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cynorthwyo disgyblion yn dda i wneud cynnydd da mewn dysgu. Mae arweinwyr yn rheoli'r adeilad, y safleoedd a'r adnoddau yn dda.

Mae arweinwyr yn nodi cyfleoedd gwerthfawr i athrawon ddatblygu eu medrau proffesiynol i wella eu harfer a bodloni nodau gwella ysgol; er enghraifft, mae hyfforddiant staff yn effeithiol o ran galluogi disgyblion i ddefnyddio medrau TGCh ar draws sawl agwedd ar eu gwaith. Mae staff yn cyfrannu'n effeithiol at rwydweithiau dysgu proffesiynol ag ysgolion eraill i rannu arfer dda. Mae'r ffederasiwn yn gweithio'n gydweithrediadol ac yn effeithiol i ddatblygu meysydd fel arfer y Cyfnod Sylfaen.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn cadw rheolaeth dda o adnoddau ariannol yr ysgol ac yn rhagfynegi anghenion gwariant y dyfodol yn dda. Lle y bo'n berthnasol, gwnant ddefnydd priodol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion. O ganlyniad, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael eu targedu gynnydd da, er enghraifft trwy wella eu medrau ysgrifennu a rhifedd.

Oherwydd y safonau da y mae disgyblion yn eu cyflawni ac ansawdd y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6632164 - Ysgol Gellifor**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 84 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 1.3 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 9 | 15 | 12 | 12 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 100.0 | 93.3 | 75.0 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 4 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 15 | 12 | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 83.3 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 44.4 | 46.7 | 41.7 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 15 | 12 | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 93.3 | 83.3 | 91.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 40.0 | 25.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 9 | 15 | 12 | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 44.4 | 60.0 | 83.3 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6632164 - Ysgol Gellifor**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 84 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 1.3 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 12 | 5 | 15 | 11 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 91.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 5 | 15 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 91.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 40.0 | 53.3 | 54.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 5 | 15 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.7 | 40.0 | 46.7 | 63.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 5 | 15 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 40.0 | 46.7 | 63.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 47 | 47 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 46 | 46 | 0 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 47 | 47 | 0 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 46 | 45 | 1 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 47 | 46 | 1 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 47 | 47 | 0 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 47 | 47 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 47 | 47 | 0 | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 47 | 46 | 1 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 47 | 46 | 1 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 47 | 41 | 6 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 87% | 13% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 47 | 44 | 3 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 94% | 6% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 22 | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 22 | 13 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 59% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 22 | 13 | 9 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 59% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 22 | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 22 | 10 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 55% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 22 | 14 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 22 | 13 | 8 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 59% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 22 | 8 | 12 | 2 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 36% | 55% | 9% | 0% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 22 | 12 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 55% | 41% | 5% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 21 | 9 | 11 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 43% | 52% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 22 | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 21 | 7 | 13 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 33% | 62% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 4% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 22 | 9 | 12 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 41% | 55% | 5% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 9% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 22 | 15 | 7 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 22 | 6 | 11 | 2 | 0 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 27% | 50% | 9% | 0% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 22 | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 22 | 7 | 13 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 32% | 59% | 0% | 0% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 22 | 8 | 13 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 36% | 59% | 5% | 0% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 22 | 13 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 59% | 41% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Tony Bate | Arolygydd Cofnodol ar gyfer y ffederasiwn |
| Susan Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Richard Lloyd | Arolygydd Tîm |
| James Jones | Arolygydd Lleyg |
| Sarah Hurst | Arolygydd Cymheiriaid |
| Richard Monteiro | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.